



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

12 Medi 2011

Annwyl Weinidog,

**Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas: adborth a Hysbysiad
Atodol yn gofyn am ragor o wybodaeth erbyn 12 Hydref 2011**

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm cais am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'. Rwy'n gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech a roddwyd i ymateb i'm cais.

Fel y gwyddoch, gofynnais i Lywodraeth Cymru ymateb i bump o'r argymhellion, gan amlinellu sut y bydden nhw'n cydymffurfio â nhw. Os byddai'r Llywodraeth yn penderfynu peidio â chymryd camau mewn ymateb i'r argymhellion, roeddwn yn gofyn am esboniad dros beidio â chymryd camau. Daeth ymateb cyntaf y Llywodraeth i law ar 15 Mehefin 2011. Ar ôl asesu'r ymateb hwnnw, anfonais Hysbysiad Ysgrifenedig yn gofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas ag Argymhellion 7 (lefelau staffio), 10 (profiad cleifion) ac 11 (arferion da) i'm darbwyllo y byddai

buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hybu gan Lywodraeth Cymru.

Mae fy nhîm a mi wedi asesu'r ail ymateb yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan. Mae ail ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion 7, 10 ac 11 heb fy narbwylllo y cydymffurfir â'm hargymhellion.

Argymhelliad 7

Gofynnais am ragor o wybodaeth ynghylch a fydd argymhellion y Grŵp Cyfeirio Arbenigol yn cael eu mabwysiadu yn ymarferol. Roedd y Grŵp wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â'r Byrddau Iechyd i ddod o hyd i ddull priodol i bennu'r lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau ar wardiau lle mae pobl hŷn yn cael gofal. Tanlinellodd fy Adolygiad i fod anghenion pobl hŷn yn fwyfwy cymhleth. Mae Argymhelliad 7 yn dweud y dylai unrhyw ddull sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru "ystyried lefelau presennol o angen a lefelau o angen a ragwelir mewn perthynas â'r gofal a roddir i bobl hŷn". Paragraff 1 o ail ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 7 yw'r unig baragraff sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r Argymhelliad hwn ac eto i gyd nid yw'n rhoi digon o fanylion i'm darbwyllo y bydd unrhyw ddull yn y dyfodol yn cymryd i ystyriaeth y cymhlethdod cynyddol yn anghenion pobl hŷn nac yn dweud pa waith a allai gael ei wneud i ddarogan lefelau'r anghenion yn y dyfodol. Mae Argymhelliad 7 hefyd yn dweud y dylai unrhyw ddull newydd "benderfynu ar lefelau staffio priodol a'r modd y dylai staff gael eu defnyddio".

Hoffwn gael rhagor o wybodaeth sy'n mynd i'r afael â byrdwn Argymhelliad 7 yn llawnach, er enghraifft y Cylch Gorchwyl sydd wedi'i roi i Grŵp Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Nyrsio Cymru Gyfan wrth iddyn nhw wneud gwaith i ddod o hyd i ddull mesur.

Argymhelliad 10

Fe wnes i'r Argymhelliad hwn am ein bod yn credu nad oedd y trefniadau cyfredol ar gyfer casglu profiadau cleifion yn ddigonol i

ganiatáu i'w lleisiau gael eu clywed; dydyn nhw ddim yn casglu niferoedd digonol ar gyfer gwaith dadansoddi cadarn, nac yn caniatáu cymharu rhwng sefydliadau. Mae hyn yn dod â goblygiadau ar gyfer cleifion yn gyffredinol, ond i bobl hŷn yn benodol gan mai pobl hŷn yw'r mwyafrif o gleifion.

Mae canfyddiadau fy Adolygiad yn awgrymu nad yw'r dull archwilio cyfredol sef Hanfodion Gofal yn gweithio mewn modd mor effeithiol ag y dylai. Nid yw wedi bod yn effeithiol o ran lleihau cam-drin urddas yn y saith mlynedd diwethaf ac mae'n dibynnu'n drwm ar ddata meintiol. Mae'n dibynnu'n drwm hefyd ar systemau sy'n cael eu rhoi ar waith gan y staff, ac nid yw'n cyfeirio o gwbl at roi llais hawdd ac effeithiol i'r cleifion fel rhan o'r drefn. Ffordd rannol iawn yn unig felly o gasglu profiadau pobl yw hyn. Rwy'n awyddus yn benodol i brofiadau pobl hŷn sy'n agored i niwed neu sy'n methu siarad drostyn nhw eu hunain gael eu casglu; dwy ddim yn credu bod yr ymateb a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos gwir ymrwymiad i hyn.

Mae Argymhelliad 10 hefyd yn dweud y "dylai'r canlyniadau fod ar gael ar ffurf sy'n hawdd i'w deall ac y gellir ei chymharu dros amser, ar sail Cymru gyfan ac ar sail Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau unigol". Nid yw'r ail ymateb wedi mynd i'r afael â hyn.

Hoffwn gael rhagor o wybodaeth i'm hargyhoeddi y cydymffurfir ag Argymhelliad 10.

Argymhelliad 11

Mae'r Argymhelliad hwn yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu'r broses o werthuso a mabwysiadu arferion da ledled Cymru, gyda phwyslais ar sicrhau newidiadau cadarnhaol ac amlwg mewn arferion o ran gofalu am bobl hŷn. Dylai Llywodraeth Cymru ddwyn y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth i gyfrif am eu llwyddiant i fabwysiadu arferion da sy'n gwella gofal urddasol, neu gyfiawnhau pam na wnaethant hynny.

Mae'r ail ymateb yn rhoi mwy o wybodaeth na'r ymateb cyntaf a ddaeth i law oddi wrth Lywodraeth Cymru. Rwy'n cydnabod y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud drwy gyfrwng 1000 Fywydau a Mwy a Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu. Mae'n dda gen i weld bod cynhadledd ar Urddas a Thosturi wedi'i chynllunio ar gyfer mis Mawrth 2012.

Mae fy adroddiad i'n tanlinellu y gall fod angen gwneud mwy ar ben y mentrau presennol hyn er mwyn sicrhau bod arferion da yn cael eu lledaenu a'u mabwysiadu'n effeithiol. Rwy'n credu bod gan Lywodraeth Cymru ran allweddol i'w chwarae i ddwyn y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth i gyfrif. Hoffwn gael gwybodaeth yn benodol am yr hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud os bydd y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth yn methu'n gyson â mabwysiadu arferion da a fyddai'n gwella gofal ag urddas.

Felly, yn unol â Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007, rheoliad 15(6), mae'r llythyr hwn yn Hysbysiad Atodol i Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth i'm darbwylo y cydymffurfir ag Argymhellion 7, 10 ac 11. Byddwch cystal â rhoi'r wybodaeth hon erbyn **dydd Mercher 12 Hydref 2011 am 12 canol dydd fan bellaf.**

Mae'n ofynnol imi gadw cofrestr, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn cynnwys manylion yr argymhellion a manylion unrhyw gamau pellach yr ydw i wedi'u cymryd, megis rhoi Hysbysiad Atodol. Bydd y gofrestr ar ein gwefan ynghyd â phob ymateb a anfonwyd gan Lywodraeth Cymru a'r llythyr hwn. Bydd y gofrestr ar gael ar bapur hefyd os gwneir cais amdano.

Pan fyddaf yn fodlon bod gen i'r cyfan o'r wybodaeth angenrheidiol, bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod yr argymhellion yn dod yn realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn yr hoffech eu trafod, mae croeso ichi gysylltu ag Anna Buchanan ar 02920 445034 neu anna.buchanan@olderpeoplewales.com.

Yn gywir,

Ruth Marks
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru